OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 305

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

## RHAN 4

Diwygiad i Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i baragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt)**

**4.** Yn lle paragraff 10 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt) rhodder—

"**10.**—(1) Aelod o griw awyren pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) ystyr "aelod o griw awyren" yw person sydd—

(i) yn gweithredu fel peilot, llywiwr hedfan, peiriannydd hedfan neu weithredwr radioteleffoni hedfan yr awyren,

(ii) yn cael ei gludo ar y dec hedfan ac yn cael ei benodi gan weithredwr yr awyren i roi neu i oruchwylio'r hyfforddiant, y profiad, yr ymarfer a'r profion cyfnodol sy'n ofynnol ar gyfer y criw hedfan o dan erthygl 114(2) o Orchymyn Llywio Awyr 2016(**1**), neu

(iii) yn cael ei gludo ar yr hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i'w haseinio gan y gweithredwr neu'r peilot sydd â rheolaeth o'r awyren er budd diogelwch teithwyr neu'r awyren;

(b) mae teithio at ddibenion gwaith yn cynnwys, yn benodol—

(i) pan fo'r aelod o griw awyren yn preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, teithio i'r Deyrnas Unedig i weithio ar awyren sy'n ymadael â'r Deyrnas Unedig,

(ii) teithio i fynychu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig,

(iii) dychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn dilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig."

(**1**) O.S. 2016/765. Mae diwygiadau i Atodlen 1 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.